Cwm Taf Morgannwg

# Bwrdd Diogelu
# Safeguarding Board





## CYNLLUN STRATEGOL 2023 - 2026

## BLWYDDYN 3 – 2025 - 2026

| Tabl Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| RHAGAIR GAN GADEIRYDD BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG | 3 |
| DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG | 5 |
| BETH YW EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL AR GYFER Y FLWYDDYN NESAF? | 9 |
| 1. Rydyn ni wedi ***sefydlu*** ble rydyn ni arni a ble mae angen i ni fod. | 10-14 |
| 2. Rydyn ni wedi ***dysgu*** drwy fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf a chytuno sut mae modd i ni fel Bwrdd wneud gwahaniaeth i arferion diogelu. | 14-17 |
| 3. Rydyn ni wedi cytuno ar sut mae modd i ni ***ddatblygu*** fel Bwrdd i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella. | 18-25 |
| Â PHWY YDYN NI'N BWRIADU CYDWEITHIO I GYFLAWNI EIN HAMCANION? | 25 |
| EIN CYLLIDEB | 26 |
| OES GYDA CHI BRYDERON AM RYWUN? | 27 |
| ATODIAD 1 – AELODAU O'R BWRDD | 29-31 |
| ATODIAD 2 – STRWYTHUR Y BWRDD | 32 |

# RHAGAIR GAN GADEIRYDD BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG

## *Croeso i Gynllun Strategol 3-blynedd gyntaf Bwrdd Diogelu newydd Cwm Taf Morgannwg.*

Mae’r Cynllun yn nodi’r hyn y bydd y Bwrdd yn canolbwyntio arno yn ystod y flwyddyn nesaf, er mwyn cyflawni ein nod o sicrhau bod pobl Cwm Taf Morgannwg yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.

Roedd aelodau’r Bwrdd wedi cwrdd ym mis Chwefror 2025 i fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf ac i adolygu'r meysydd blaenoriaeth allweddol yr oedd angen canolbwyntio arnyn nhw yn y flwyddyn i ddod. Cytunodd yr aelodau, er mwyn cyflawni gwelliannau mesuradwy o ran arferion diogelu, fod angen cynllun tymor hwy ar gyfer y Bwrdd fel bod modd i ni osod targedau tymor byr, tymor canolig a thymor hwy i ni ein hunain.

Mae'r blaenoriaethau yma'n deillio o'r gwersi rydyn ni wedi'u dysgu dros flynyddoedd blaenorol, a dadansoddiad o'r materion diogelu cyffredin ac sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar y rhanbarth. Bydd y blaenoriaethau yma'n cael eu cyflawni ar y cyd, ac yn ogystal, â swyddogaethau diogelu statudol craidd y Bwrdd.

Yn sail i’r blaenoriaethau hyn mae angen sicrhau bod ein staff sy’n gweithio ledled y rhanbarth yn cael y cymorth priodol i gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid hefyd sicrhau bod hybu lles staff yn amcan craidd i’r holl asiantaethau partner.

Gan ein bod ni'n awyddus i hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu, rydyn ni'n annog unrhyw un sy’n dymuno dysgu rhagor am ddiogelu yng Nghwm Taf Morgannwg i ymweld â’n gwefan www.cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk/Cy neu i gysylltu ag Uned Materion Busnes ein Bwrdd Diogelu Rhanbarthol drwy e-bost: DiogeluCTM@rctcbc.gov.uk





**Lisa Curtis-Jones, Cadeirydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg**

# 1. DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG

Mae ardal Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf lle mae 442,000 o drigolion[1].

Mae **Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg** yn bartneriaeth statudol ag asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gan asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu drefniadau effeithiol ar waith er mwyn gwneud yn siwr bod pobl o bob oed yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn golygu atal achosion o gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni ei amcanion yn unol â'r canllawiau statudol cenedlaethol sydd wedi'u nodi yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddeddfwriaeth yma'n darparu'r fframwaith ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru sy'n gefn i waith ymarferwyr o gymhwyso'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol. Nod y gwaith yma yw gwella deilliannau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i blant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Mae'r ddau brif amcan **diogelu** cyffredinol yma sy'n ymwneud ag **amddiffyn** ac **atal** yn sail i waith y Bwrdd Diogelu ac yn llywio cyfeiriad strategol ein Cynllun ar gyfer 2024 - 2026.

***Mae pawb yn gyfrifol am gadw plant ac oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel. Mae gan bob asiantaeth ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw amheuon o gam-drin ac/neu esgeulustod.***

## Beth yw Cam-drin ac Esgeulustod?

- Mae cam-drin yn gallu golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.
- Mae'r term esgeuluso yn golygu peidio â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a seicolegol sylfaenol yr unigolyn, sy'n debygol o amharu ar ei les.

[1] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Cyfrifiad 2021)

## Pwy yw Aelodau o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?

Mae aelodaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae hyn yn cynnwys:

- Y 3 awdurdod lleol yn y rhanbarth:
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Prif Swyddog yr Heddlu
- Y Bwrdd Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth y GIG
- Y Gwasanaeth Prawf
- Carchar EF y Parc

Partner Arweiniol y Bwrdd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n cynnal Uned Materion Busnes y Bwrdd ac yn rheoli cyllideb y Bwrdd.

Mae rhestr o aelodau wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

### Hybiau Diogelu Amlasiantaeth

Mae 2 Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg sy'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd, sef:

**MASH Cwm Taf (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) a MASH Pen-y-bont ar Ogwr.**
Bwriad y MASH yw bod yn bwynt cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol i roi gwybod am unrhyw bryderon am ddiogelwch. Mae'r MASH yn darparu cyfle ar gyfer diogelu o safon uwch trwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Mae modd i weithwyr proffesiynol ddefnyddio'r wybodaeth yna i wneud gwell benderfyniadau. Mae hyn yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu'n effeithiol rhwng asiantaethau, gan helpu i ddiogelu plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Er bod MASH Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi model MASH wedi'i gydleoli yn y ganolfan ddinesig, eleni rydyn ni'n ystyried model MASH Cwm Taf diwygiedig sy'n debygol o gynnwys elfen o waith hybrid ochr yn ochr ag adleoli'r MASH o orsaf heddlu Pontypridd i safle neu safleoedd eraill. Waeth beth fo'r bwriad i ddiwygio model MASH Cwm Taf eleni, byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio'n benodol ar rannu gwybodaeth yn brydlon a chamau gweithredu amlasiantaeth i ddiogelu plant ac oedolion yn y rhanbarth.

## Beth yw Swyddogaethau Craidd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol?

Mae gan bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyfrifoldeb statudol i gyflawni swyddogaethau craidd mewn perthynas â gweithgarwch diogelu amlasiantaeth. Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni’r swyddogaethau yma o ddydd i ddydd drwy bwyllgorau ac is-grwpiau penodol (gweler Atodiad 2). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrannu at waith datblygu, gweithredu a monitro protocolau a gweithdrefnau sy'n helpu i ddiogelu oedolion a phlant ac i'w hatal rhag cael eu cam-drin
- Codi ymwybyddiaeth o amcanion y Bwrdd i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, a'u hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill, a darparu gwybodaeth am sut mae modd cyflawni hyn
- Adolygu effeithiolrwydd mesurau wedi'u cymryd gan asiantaethau i weithredu amcanion y Bwrdd, gwneud argymhellion a'u monitro
- Cynnal adolygiadau ymarfer plant, adolygiadau ymarfer oedolion, archwiliadau, ymchwiliadau ac arolygon eraill yn ôl yr angen yn unol â'i amcanion a dosbarthu dysgu a gwybodaeth sy'n codi o'r arolygon yma
- Adolygu cyflawniad y Bwrdd a'i bartneriaid a chyrff sy'n cael eu cynrychioli gan y Bwrdd wrth gyflawni ei amcanion;
- Hwyluso gwaith ymchwil i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac ymchwilio er mwyn atal hynny rhag digwydd.
- Adolygu anghenion hyfforddi ymarferwyr sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd er mwyn pennu hyfforddiant i helpu diogelu'r plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac i atal hynny rhag digwydd.

## 2. BETH YW EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL AR GYFER Y FLWYDDYN NESAF?

Y 2 brif flaenoriaeth i Fyrddau Diogelu yw:

- **Amddiffyn plant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill**

- **Atal plant ac oedolion rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill.**

O safbwynt strategol, y 2 flaenoriaeth allweddol yma yw sbardun gwaith y Byrddau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau cyffredinol yma orau, byddwn ni'n gweithio gyda'r egwyddorion canlynol mewn golwg:

1. **Rydyn ni wedi *sefydlu* ble rydyn ni arni a ble mae angen i ni fod**
2. **Rydyn ni wedi *dysgu* drwy fyfyrio ar y blynyddoedd diwethaf a chytuno sut mae modd i ni fel Bwrdd wneud gwahaniaeth i arferion diogelu.**
3. **Rydyn ni wedi cytuno ar sut mae modd i ni *ddatblygu* fel Bwrdd i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella.**

***Isod mae trosolwg o'r hyn y mae'r Bwrdd yn bwriadu ei wneud i gyflawni ei flaenoriaethau yn y tair blynedd nesaf.***

Bydd cynllun gwaith manwl ar gyfer pob Is-grŵp y Bwrdd yn eistedd o dan hwn. Bydd y cynllun yma'n nodi camau gweithredu penodol i gyflawni'r gwelliannau hyn, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol, amserlenni a dulliau mesur llwyddiant. Bydd cynnydd y cynlluniau gwaith yma'n cael ei fonitro a'i adolygu drwy gydol y flwyddyn a bydd yn sail i'n Hadroddiadau Blynyddol.

| THEMA 1: Sefydlu ble rydyn ni ar ddechrau pob blwyddyn a ble rydyn ni eisiau bod | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Disgrifiad** | **Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud?** | **Sut byddwn ni'n mesur cynnydd?** |
| **Rheoli Risgiau** | Mae angen i ni sicrhau bod y Bwrdd yn defnyddio ei Gofrestr Risgiau i nodi'r materion blaenoriaeth y mae angen mynd i'r afael â nhw. | Mae Cofrestr Risg ddiwygiedig yn cael ei llunio ar gyfer 2025/26, bydd y gofrestr hon yn:<br>▪ Nodi beth yw'r risgiau mwyaf i'r Bwrdd Diogelu<br>▪ Neilltuo perchnogaeth dros y risgiau hyn<br>▪ Nodi'r camau gweithredu angenrheidiol i liniaru'r risgiau hyn | Bydd y Gofrestr Risg yn cael ei monitro gan Grŵp Cynllunio Strategol y Bwrdd bob chwarter i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli, eu lleihau a/neu eu dileu.<br>Pan fydd unrhyw risg critigol yn codi yn ystod y flwyddyn, bydd y Grŵp Cynllunio Strategol yn ymgynnull ar unwaith i gytuno ar gamau lliniaru i leihau neu ddileu'r risg yna. |
| **Codi proffil Cam-drin ac/neu Esgeuluso** | Mae swyddogaeth y Bwrdd o ran codi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth ac/neu esgeulustod yn amcan allweddol y mae angen canolbwyntio'n barhaus arno. | Bydd y Bwrdd yn parhau i oruchwylio'r blaenoriaethau gwaith canlynol yn ystod 2025/26:<br>▪ Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd (yn ymdrin â meysydd blaenoriaeth penodol megis camfanteisio ac argymhellion o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a gwaith archwilio perthnasol) a fydd hefyd â'r nod o sicrhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. | Byddwn ni'n nodi cyfres o fesurau cyflawniad i fesur effeithiolrwydd ein gwaith, wedi'i gysylltu â Fframwaith Cyflawniad y Bwrdd. Grwpiau Is-strwythur y Bwrdd fydd yn goruchwylio'r gwaith yma. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Nodi'r holl randdeiliaid allweddol a darparwyr gwasanaethau mae modd i ni weithio gyda nhw i ddatblygu trefnau adnabod a nodi cynharach a gwasanaethau ataliol, a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cymorth cynnar.<br>▪ Nodi poblogaethau penodol sydd mewn perygl o niwed a gweithio gyda'r trydydd sector, grwpiau cymunedol a sefydliadau i dargedu cyfathrebu â nhw i sicrhau y caiff sylw ei roi i'r ddyletswydd i adrodd.<br>▪ Defnyddio hyfforddiant rhyngasiantaeth a lledaenu dysgu ac ymchwil i feithrin gweithlu amlasiantaeth mwy hyderus a gwybodus.<br>▪ Defnyddio data cyflawniad a gwybodaeth i ddeall a mynd i'r afael â dangosyddion cynnar o ran cam-drin ac esgeulustod, dadansoddi patrymau atgyfeirio ac ailatgyfeirio a chysylltiadau â throthwyon. | |
| **Gwaith mewn Partneriaeth** | Mae gweithio mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid yn hanfodol i feithrin cydweithio effeithiol er mwyn diogelu ein cymunedau. | Byddwn ni'n parhau i adolygu ein cyd-berthynas â phartneriaethau sy'n bodoli eisoes, parhau i ddatblygu cyd-berthynas gydweithredol gadarn ag eraill, a cheisio cyfleoedd cydweithredu pellach sy'n cefnogi blaenoriaethau diogelu'r Bwrdd. Bydd hyn yn cynnwys rhyngweithio'n well â:<br>▪ Partneriaethau Cymunedau Diogel<br>▪ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>▪ Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Byddwn ni'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithdai ar gyfer ymarferwyr, sesiynau gwybodaeth ar-lein a sesiynau gwybodaeth 7 munud.<br><br>Ein nod fydd rhannu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl<br>▪ Llywodraeth Cymru<br>▪ Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Rydyn ni'n parhau i wneud ein gorau i geisio annog gweithio ar draws partneriaethau a, lle bo'n briodol, cydweithio ar draws ffiniau â'r holl grwpiau uchod ac unrhyw grwpiau strategol eraill i wella a chefnogi ein ffrydiau gwaith.<br><br>Byddwn ni'n parhau i ddatblygu cyfleoedd i wella ein cyd-berthynas wrth gydweithio â:<br><br>▪ Byrddau Diogelu rhanbarthol eraill<br>▪ Gwasanaethau gofal sylfaenol ac iechyd meddwl<br>▪ Sefydliadau'r trydydd sector<br>▪ Sefydliadau cymunedol a chwaraeon<br>▪ Grwpiau ffydd<br>▪ Prifysgolion a cholegau<br><br>Byddwn ni'n parhau i annog a meithrin y cyhoedd, y rhai sydd â phrofiad personol a defnyddwyr ein gwasanaeth i chwarae rhan gadarnhaol a gweithredol yng ngwaith y Bwrdd. Bydd hyn yn parhau i fod yn thema drawsbynciol ar draws holl weithgarwch llif gwaith y Bwrdd. | gwybodaeth berthnasol sy'n cefnogi deilliannau cydweithio gwell gyda rhanddeiliaid allweddol, gan geisio cefnogi partneriaid lle bynnag y bo modd i helpu'r Bwrdd i ddiogelu plant ac oedolion yn effeithiol.<br><br>Ein nod fydd chwalu rhwystrau drwy wella cydweithio a chyfathrebu a cheisio lleihau achosion o ddyblygu ffrydiau gwaith lle caiff blaenoriaethau diogelu a rennir gyda rhanddeiliaid allweddol eraill eu nodi mewn meysydd gwaith penodol.<br><br>Ein nod fydd adrodd yn effeithiol yn ein Hadroddiad Blynyddol ar faint o waith ymgysylltu â'r cyhoedd a gwaith ymgynghori â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi cael ei gynnal yn rhan o weithgarwch y Bwrdd. |
| **Gweithlu** | Rhaid i'r holl staff sy'n gweithio ar draws ein hasiantaethau partner deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, er gwaethaf y pwysau parhaus ar ein gwasanaethau. | Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo lles staff trwy ystod o wahanol ddulliau. Bydd hyn yn cynnwys:<br>▪ Hyrwyddo hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o sut mae modd i unigolion wella eu lles eu hunain a sut mae modd iddyn nhw gael cymorth ychwanegol lle bo angen.<br>▪ Sesiynau gwybodaeth i staff gydag uwch arweinwyr.<br>▪ Defnyddio sesiynau gwybodaeth 7 munud a gwefan BDCTM i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd gan staff i fanteisio ar gymorth a manylion y darparwyr cymorth perthnasol sy'n gweithredu yn eu maes gwaith.<br>▪ Annog gwell ymarfer proffesiynol, cyd-berthynas a diwylliant parchus rhwng asiantaethau<br>▪ Annog asiantaethau i rannu deilliannau arfer da a straeon "llwyddiannau" staff | Bydd gofyn i asiantaethau partner adrodd i'r Bwrdd ar sut maen nhw'n sicrhau eu bod nhw'n mynd i'r afael â'r flaenoriaeth yma.<br>Lle caiff unrhyw fater critigol yn ymwneud â'r gweithlu ei nodi sy'n effeithio'n negyddol ar effeithiolrwydd gweithgarwch diogelu yn y rhanbarth, rhaid i asiantaethau roi gwybod i'r Bwrdd am hyn fel bod modd diweddaru'r Gofrestr Risg.<br>Bydd hyn yn helpu'r Bwrdd i roi cymorth wrth liniaru unrhyw risgiau a rhoi sicrwydd bod y Bwrdd yn effeithiol wrth ddwyn asiantaethau i gyfrif mewn perthynas â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | materion diogelu yn y rhanbarth. |
| **THEMA 2: DYSGU – Myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf a chytuno ar sut mae modd i ni wella arferion diogelu** | | | |
| **Maes Blaenoriaeth** | **Cyd-destun** | **Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud?** | **Sut byddwn ni'n mesur cynnydd?** |
| **Fframwaith Dysgu** | Yn 2025/26, bydd y Bwrdd yn ceisio adolygu ei Fframwaith Dysgu a Gwella i adnewyddu sut y byddwn ni'n nodi dysgu yn y dyfodol, ei rannu ag eraill, a'i roi ar waith er mwyn gwella arferion diogelu.<br><br>Rydyn ni eisiau cynnal cylch dysgu a gwella parhaus sy'n cefnogi diwylliant o arfer da ac effeithiolrwydd gwell yn ein holl weithgarwch diogelu. | Ar draws asiantaethau partner y Bwrdd a chyda rhanddeiliaid eraill, byddwn ni'n:<br>▪ Adolygu a hybu Fframwaith Dysgu'r Bwrdd i wella'r gwaith o nodi, rhannu a gwerthuso dysgu.<br>▪ Nodi a rhannu meysydd o arfer da.<br>▪ Monitro argymhellion a chynlluniau gweithredu sy'n codi o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl<br>▪ Rhannu manylion y deilliannau dysgu sy'n codi o weithgarwch archwilio<br><br>Byddwn ni hefyd yn ceisio gwneud y mwyaf o arfer da a dysgu ychwanegol gan eraill drwy:<br>• Derbyn Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl gan Fyrddau Diogelu rhanbarthol eraill, a'u rhannu ag eraill<br>• Cymryd rhan mewn cylchoedd trafod cenedlaethol a rhannu'r wybodaeth ddysgu berthnasol gyda'n rhanddeiliaid allweddol<br><br>Cyfrannu at Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ac addo i weithredu argymhellion cenedlaethol sy'n cefnogi deilliannau diogelu gwell i blant ac oedolion. | Byddwn ni'n defnyddio ystod o wahanol ddulliau i fesur cynnydd gan gynnwys:<br>• Is-grŵp Ymgysylltu, Dysgu a Chyfathrebu'r Bwrdd yn goruchwylio gweithgarwch dysgu<br>▪ Creu cronfa ddata themâu dysgu gyda chynllun gweithredu priodol i fodloni gofynion dysgu<br>▪ Adolygu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a chynlluniau gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol eraill gan sicrhau bod yr holl argymhellion dysgu yn cael eu gweithredu . Grŵp Gwella Cyflawni Arferion y Bwrdd fydd yn gyfrifol am y gwaith yma.<br>▪ Darparu cyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgwyd.<br>▪ Darparu'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd<br>▪ Parhau i gymeradwyo'r defnydd o sesiynau gwybodaeth 7 munud |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | Mae'n ofynnol i'r Bwrdd ddarparu cyfleoedd cyfathrebu cadarnhaol gyda gweithwyr | Byddwn ni'n:<br>▪ Gwneud y defnydd gorau o ystod o ddulliau i gyfathrebu ac ymgysylltu â'n staff a'r cyhoedd ac i rannu dysgu | Byddwn ni'n:<br>▪ Defnyddio archwiliadau cydymffurfio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | proffesiynol a'n cymunedau ehangach.<br><br>Yn rhan o ddatblygu diwylliant o ddysgu cadarnhaol, mae angen i'r Bwrdd Diogelu sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n eang o fewn y gweithlu i'w hysbysu am yr ymarfer gorau a'r dysgu sy'n codi o weithgareddau'r Bwrdd. | ▪ Gwella ein datganiad cenhadaeth sy’n hyrwyddo cyfathrebu i gynnwys empathi a pharch at yr holl staff a defnyddwyr gwasanaeth<br>▪ Blaenoriaethu canfod llais plant, pobl ifainc ac oedolion drwy hybu cyfranogiad yng ngwaith y Bwrdd.<br>▪ Datblygu/hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd sy'n cael eu harwain gan y Bwrdd ac asiantaethau eraill.<br>▪ Cyflwyno/datblygu sesiynau gwybodaeth i staff, sesiynau galw heibio a sesiynau holi ac ateb i hyrwyddo cyfathrebu rhyngasiantaethol a dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau.<br>▪ Defnyddio sianeli Microsoft Teams i wella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu.<br>▪ Bod yn hyblyg ac yn greadigol wrth gynyddu nifer yr achlysuron ymarferwyr i rannu dysgu ac i werthuso eu heffeithiolrwydd.<br>▪ Cynyddu nifer y sesiynau dysgu wyneb yn wyneb.<br>▪ Gwneud y mwyaf o wefan BDCTM a'n cyfryngau cymdeithasol i rhannu a hyrwyddo'r wybodaeth a'r newyddion diweddaraf sy'n ymwneud â'r gymuned a'n gweithwyr proffesiynol | asiantaethau partner i fesur effeithiolrwydd y flaenoriaeth yma.<br>▪ Gwneud y defnydd gorau o werthusiadau ac adborth i fesur llwyddiant.<br>▪ Annog cyfathrebu dwy ffordd agored am waith y Bwrdd.<br>▪ Gwerthuso ein gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol drwy ddarparu arolygon a dulliau casglu adborth at ddibenion gwerthuso |
| **Staffio a Phwysau ar Wasanaethau** | Mae angen i'r Bwrdd ddeall ble mae'r heriau mewn perthynas â phwysau sy'n ymwneud | Rhaid i asiantaethau partner y Bwrdd sicrhau bod y Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol sy'n peri pryder yn brydlon, a rhoi sicrwydd bod materion yn cael eu nodi ac yn cael sylw. | Cyflwyno Adroddiadau i'r Bwrdd a'r Grŵp Cynllunio Strategol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | â staffio a'r gwasanaeth, a chael sicrwydd bod ein hasiantaethau partner yn mynd i'r afael â'r rhain yn ddigonol. | Rhaid ystyried unrhyw risg critigol ynghylch a oes angen diweddaru Cofrestr Risg y Bwrdd.<br>Bydd y Bwrdd yn herio, cefnogi a rhoi atebion yn briodol lle y bo'n addas. | |

| THEMA 3: DATBLYGU FFRYDIAU GWAITH EFFEITHIOL – i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Cyd-destun** | **Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud?** | **Sut byddwn ni'n mesur cynnydd?** |
| **Ffrwd Waith Lleihau Niwed** | Yn ein Cynlluniau Blynyddol blaenorol, fe nodon ni ein dull o amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag pob math o ecsbloetiaeth.<br><br>Eleni byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar leihau trais difrifol yn ein cymunedau.<br><br>Byddwn ni'n datblygu ein gwaith mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer atal ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol, ac yn parhau i gydweithio i leihau achosion o gam-drin plant yn rhywiol. | **Byddwn ni'n:**<br>▪ Lansio ein Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol sy'n nodi sut y bydd ein hasiantaethau partner yn cydnabod ac yn deall camfanteisio, yn diogelu ac yn rhoi'r grym yn nwylo dioddefwyr, ac yn tarfu ar y sawl sy'n cyflawni'r drosedd.<br>▪ Dechrau Cam Dau o'r Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol a fydd yn nodi sut y bydd ein partneriaid yn ymateb, yn diogelu ac yn rhoi'r grym yn nwylo'r holl ddioddefwr sy'n oedolion ac yn tarfu ar y sawl sy'n cyflawni'r drosedd.<br>▪ Sicrhau, wrth weithredu Cam 2 ein Strategaeth Camfanteisio, ein bod ni'n ystyried y cymorth sydd ei angen ar bobl 18 i 25 oed i sicrhau eu bod nhw'n cael profiad cadarnhaol wrth bontio i fod yn oedolion, gan leihau'r risg y byddan nhw'n dod i gysylltiad ag unrhyw fath o gamfanteisio.<br>▪ Gweithio'n agos gyda phartneriaethau rhanbarthol eraill a rhanddeiliaid allweddol i ddarparu dull cydlynol a chydweithredol tuag at leihau nifer yr achosion o drais yn ein cymunedau gan gynnwys sicrhau dealltwriaeth well ac ymwybyddiaeth o | ▪ Bydd dangosfwrdd camfanteisio yn ein galluogi ni i nodi, meintioli a mesur achosion o gamfanteisio ym mhob rhan o'r rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys mesurau cyflawniad a deilliannau.<br>▪ Bydd yr Is-grŵp Strategol ar faterion Camfanteisio newydd yn gyfrifol am oruchwylio gwaith lansio'r Strategaeth Camfanteisio a monitro canlyniadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Byddwn ni'n cynnal gwaith hyrwyddo pellach mewn perthynas â'n gwaith ar y cyd â'r NSPCC ar gyfer ymgyrch Chwarae Dy Ran. | faterion sy'n ymwneud â radicaleiddio, troseddau cyfundrefnol a gwaith Llinellau Cyffuriau a'r cysylltiadau rhwng y mater yma a chamfanteisio.<br>▪ Gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid a chymunedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan barhau i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol ym mhob cyd-destun a gweithio tuag at sicrhau ymateb mwy cadarn mewn perthynas ag achosion gam-drin plant yn rhywiol, o gydnabyddiaeth gynnar i ymateb. Byddwn ni'n cyfrannu at achlysur Sioe Deithiol Genedlaethol Cymru Gyfan a fydd yn cael ei gynnal ar ddechrau 2026/27.<br>▪ Parhau i hyrwyddo'r ymgyrch “Listen Up, Speak Up” sy'n annog aelodau'r gymuned i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu plant. | camfanteisio.<br>▪ Dealltwriaeth a chytundeb gan bawb ar sut y mae modd i'r holl asiantaethau ymateb i leihau niwed.<br>▪ Adroddiadau gan asiantaethau partner ar sut maen nhw'n codi ymwybyddiaeth o beryglon trais yn ein cymunedau.<br>▪ Monitro Cynllun Cyflawni Cam-drin Plant yn Rhywiol ac Adolygiadau Cam-drin Plant yn Rhywiol Cenedlaethol eraill i sicrhau bod systemau cadarn ar waith yn rhanbarth CTM ar gyfer nodi achosion o Gam-drin Plant yn Rhywiol yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Bwrdd yn addo codi ymwybyddiaeth well o seiberdroseddu yn ein cymunedau er mwyn atal niwed i oedolion a phlant. | ▪ Adolygu pa adnoddau gwybodaeth sydd ar gael ledled y rhanbarth, sy'n helpu i sicrhau bod y gymuned yn fwy effro i'r risgiau ar-lein a materion seiberddiogelwch. Gwerthuso sut mae'r rhain yn cael eu rhannu gyda'r bobl yn ein cymunedau a lle bo angen, sicrhau bod yr adnoddau yma'n hygyrch a chodi ymwybyddiaeth amdanyn nhw. | gynnar ac ymateb i'r achosion yma. Sicrhau bod dioddefwyr a theuluoedd yn cael eu cefnogi'n llawn a'n bod ni'n tarfu ar weithredoedd y rhai sy'n achosi niwed i eraill trwy gychwyn prosesau troseddol a barnwrol.<br>▪ Gwerthuso sut mae aelodau'r gymuned yn ymgysylltu ag adnoddau'r Ymgyrch.<br>▪ Nodi adnoddau gwybodaeth sy'n tynnu sylw at beryglon seiberdroseddu ac sy'n addas ar gyfer oedolion a phlant, eu rhannu ag eraill a'u |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gweithio ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill mewn perthynas ag atal hunanladdiad a hunan-niweidio. | ▪ Cyfrannu at waith Grŵp Llywio Strategol CTM a Grŵp Adolygu Hunanladdiad CTM, a hynny er mwyn sicrhau bod dulliau cydweithio effeithiol ar waith o ran atal hunanladdiad a hunan-niweidio yn y rhanbarth yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol a'r Cynllun Cyflawni [Atal hunanladdiad a hunan-niweidio: strategaeth a chynllun cyflawni \| LLYW.CYMRU] | hyrwyddo drwy'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol mewn modd effeithiol.<br>▪ Caiff y Bwrdd ei gynrychioli yn rhan o grwpiau rhanbarthol ac mae'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol o ran atal y risg o niwed o ganlyniad i hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith plant ac oedolion. |
| **Proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)** | Cafodd y broses ADUS newydd ei rhoi ar waith ym mis Hydref 2024. Mae fframwaith yr ADUS yn ymgorffori cyfrifoldeb am gynnal adolygiadau diogelu mewn perthynas â: | Mae'r Bwrdd wedi comisiynu swydd Cydlynydd Materion Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) pwrpasol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Mae'r swydd wedi'i lleoli yn rhan o'i Uned Fusnes, ac yn helpu i weithredu'r broses ADUS yn y rhanbarth. Mae partneriaid y Bwrdd wedi helpu i weithredu ein hadolygiadau drwy fynychu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer Cadeiryddion, Adolygwyr ac Aelodau Panel y Fframwaith ADUS. Mae hyn wedi galluogi'r Bwrdd i | Caiff y newyddion diweddaraf am ADUS ei rannu gyda'r Bwrdd bob chwarter, mae hyn yn cynnwys diweddariadau cynnydd ac unrhyw risgiau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ➢ Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig<br>➢ Lladdiadau Iechyd Meddwl,<br>➢ Adolygiad Ymarfer Plant<br>➢ Adolygiadau Ymarfer Oedolion<br>Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol | ddarparu adnoddau ar gyfer yr holl atgyfeiriadau ADUS sy'n cael eu derbyn. Mae adolygiad o is-strwythur y Bwrdd hefyd wedi arwain at greu Grŵp ADUS newydd (Grŵp Adolygu Achosion) sy'n gyfrifol am drafod atgyfeiriadau ADUS yn ogystal â Grŵp Gwella Cyflawni Arferion newydd a fydd yn goruchwylio Cynlluniau Gweithredu ADUS, a'r argymhellion cysylltiedig, i sicrhau bod dysgu perthnasol ac arferion gwell yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r Bwrdd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu Rhanbarthol eraill i ymgorffori pob rhan o'r fframwaith ADUS a hynny drwy gyfrannu at waith gwerthuso a dysgu parhaus yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar yma.<br>Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymryd rhan mewn cynllun peilot ADUS (Adolygiadau Lladdiad ag Arf Ymosodol) mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a Phrifysgol De Cymru. Bydd hyn yn llywio'r canllawiau wedi'u diweddaru sy'n mynd i'r afael â'r Adolygiadau yma.<br>Rydyn ni'n parhau i gefnogi ffrydiau gwaith ADUS gyda phartneriaid perthnasol mewn perthynas ag:<br>▪ Adnoddau Gwybodaeth ADUS<br>▪ Hyfforddiant ac Adnoddau sy'n ymwneud ag ADUS<br>▪ Darparu unrhyw gymorth sydd ei angen i ddatblygu Cadwrfa Genedlaethol Cymru<br>▪ Cymryd rhan mewn grwpiau cenedlaethol i gefnogi a dylanwadu ar ddatblygiad a chyflwyniad yr ADUS ledled Cymru. | Bydd y broses o gwblhau Cynlluniau Gweithredu ADUS yn cael ei goruchwylio'n gadarn gan y Grŵp Gwella Cyflawni Arferion.<br>Caiff Adolygiadau sydd wedi'u cwblhau eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref at ddibenion Sicrhau Ansawdd.<br>Byddwn ni'n parhau i annog ymarferwyr i fentora cydweithwyr a rhannu sgiliau i alluogi cronfa fwy o staff profiadol i hwyluso'r adolygiadau hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Cefnogi Cadeiryddion ac Adolygwyr annibynnol i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag ADUS | |
| **Cysondeb yn y Rhanbarth** | Mae rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys tair ardal awdurdod lleol. Rydyn ni am barhau i chwilio am gyfleoedd i sicrhau cysondeb yn y ffordd rydyn ni'n cyflawni ein cyfrifoldebau diogelu. | Byddwn ni'n ceisio parhau i wella dulliau cydweithio rhanbarthol yn y 3 Awdurdod Lleol a chyda'n rhanddeiliaid allweddol eraill, gan sicrhau bod barn yr holl randdeiliaid allweddol yn cael ei chynrychioli'n ddigonol. Ein nod fydd defnyddio enghreifftiau o arfer da sydd wedi'u nodi yn ein hasiantaethau partner i ddysgu gan ein gilydd mewn modd effeithiol. Byddwn ni'n sicrhau bod y dull yma wedi'i hyrwyddo ar draws yr asiantaethau perthnasol, gan gefnogi cylch parhaus o wella a chefnogi dulliau cyson.<br><br>Mae rôl Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelodau'r Panel ar gyfer is-strwythur newydd y Bwrdd yn cael eu cyflawni gan randdeiliaid allweddol sy'n weithwyr proffesiynol. Mae hyn yn sicrhau bod barn a blaenoriaethau'r holl asiantaethau'n cael eu cynnwys a'u trafod yn rhan o strwythur cyfredol y Bwrdd.<br><br>Rydyn ni am barhau i chwilio am ffyrdd o gydweithio ar draws y ddau Hwb Diogelu Amlasiantaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf, gan gynnwys:<br>▪ Opsiynau ar gyfer dull hybrid o weithio yng Nghwm Taf.<br>▪ Prosesau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau cychwynnol (trothwyon)<br>▪ Gwerthuso'r system rhannu gwybodaeth ranbarthol a rennir. | Cyflwyno adroddiadau cynnydd i Grŵp Gweithredol Yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth a'r Bwrdd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rydyn ni'n cyfrannu at y Fframwaith Amlasiantaeth Cenedlaethol sy'n seiliedig ar gyfres o gwestiynau allweddol, sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y mesurau diogelu sydd ar waith ar draws y rhanbarth yn effeithiol.<br><br>Rydyn ni am ddatblygu dull amlasiantaeth o ddarparu hyfforddiant diogelu ar draws y rhanbarth. Dylai hyn gael ei arwain gan anghenion a'i gyflwyno gan ymarferwyr amlasiantaeth.<br><br>Byddwn ni'n ceisio sicrhau trefniadau cyson rhwng y Gwasanaethau i Blant a'n Partneriaid Tai statudol ledled CTM o ran darparu llwybrau gadael gofal effeithiol sy'n lleihau'r risg y bydd unrhyw blentyn sydd wedi derbyn gofal yn dod yn ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref. | Bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar Ymarfer Amlasiantaethol yn llywio effeithiolrwydd arferion diogelu wrth symud ymlaen.<br><br>Mae hynny'n cydymffurfio â'r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol.<br><br>Does dim angen i blant sy'n gadael gofal fod yn ddigartref ac mae opsiynau llety ar ôl gofal sefydlog ac amserol yn cael eu rhoi iddyn nhw.<br><br>Sicrhau bod Swyddogion Arweiniol allweddol sy'n ymwneud â materion Tai wedi'u cynrychioli ac yn cyfrannu at waith y Bwrdd, a hynny er mwyn cefnogi dull effeithiol o ran gweithio ar y cyd sy'n lleihau'r perygl y bydd unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal yn cael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ei wneud yn ddigartref ar ôl gadael gofal. |

## 4. Â PHWY YDYN NI'N BWRIADU CYD WEITHIO I GYFLAWNI EIN BLAENORIAETHAU A'N HAMCANION?

Mae cydweithio'n effeithiol â phartneriaethau ac asiantaethau eraill, boed hynny ar sail ranbarthol neu genedlaethol, yn allweddol i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd yn effeithiol.

| Gyda phwy y byddwn ni'n cydweithio? | Meysydd cydweithio |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | ▪ Polisïau a deddfwriaeth mewn perthynas â diogelu<br>▪ Gweithredu'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) ac adolygu'r broses hon<br>▪ Llunio Canllawiau Ymarfer ar gyfer diogelu oedolion<br>▪ Cyfarfodydd bob chwarter i Reolwyr Busnes a Chadeiryddion |
| **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** | ▪ Ceisio cyngor ar faterion diogelu rhanbarthol a chenedlaethol |
| **Trydydd Sector** | ▪ Mynd ati'n weithredol i'w hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol |
| **Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill** | ▪ Polisïau a gweithdrefnau cyson ledled Cymru<br>▪ Rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu ac arfer gorau |
| **Partneriaethau Cymunedau Diogel** | ▪ Camfanteisio |

| | |
|---|---|
| | ▪ Adolygiad Diogelu Unedig Sengl<br>▪ Trais Domestig |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** | ▪ Plant, pobl ifainc ac oedolion i gymryd rhan |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** | ▪ Gweithio gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru a gloywi'r Cynllun Lles |
| **Uned Atal Trais Cymru** | ▪ Cynnydd mewn troseddau treisgar<br>▪ Fframwaith ar gyfer Atal Trais, wedi'i gysylltu â Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc ac Ecsbloetiaeth<br>▪ Dyletswydd Trais Difrifol<br>▪ Adolygiadau Arfau Ymosodol |

## 5. EIN CYLLIDEB AR GYFER 2025-2026

Mae cyllideb y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn yn cael ei hariannu gan gyfraniadau ariannol yr asiantaethau partner statudol. Bydd y gyllideb yn galluogi'r Bwrdd i gyflawni deilliannau ei flaenoriaethau fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Blynyddol yma. Bydd yn cael ei dyrannu fel a ganlyn:

Costau Cymorth yr Uned Rheoli Materion Busnes a'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg - £420,866

Gwariant Cyffredinol: £65,086

## Oes Gyda Chi Bryderon am Rywun?

Os ydych chi'n amau bod **plentyn neu berson ifanc** yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei chymryd o ddifrif. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Yn Rhondda Cynon Taf: 01443 425006
Ym Merthyr Tudful: 01685 725000
Ym Mhen-y-bont ar Ogwr: 01656 642320

Oriau Agor:
Llun – Iau: 8.30am – 5pm
Gwener: 8.30am – 4.30pm

Os ydych chi'n amau bod **oedolyn** yn cael ei niweidio, neu'n wynebu risg o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei thrin o ddifrif. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Yn Rhondda Cynon Taf: 01443 425003
Ym Merthyr Tudful: 01685 725000
Ym Mhen-y-bont ar Ogwr: 01656 642477

Oriau Agor:
Llun – Iau: 8.30am – 5pm
Gwener: 8.30am – 4.30pm

I gysylltu â'r Gwasanaethau i Blant neu'r Gwasanaethau i Oedolion y tu allan i oriau'r swyddfa, dros y penwythnos ac ar wyliau banc, ffoniwch Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau Cwm Taf Morgannwg ar 01443 743665 neu 01443 657225.

**Os ydych chi'n amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 a siarad â'r Heddlu.**

**Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd gyda chi sy'n ymwneud â phlentyn neu oedolyn sydd mewn perygl yma:**

**Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:**
**Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf** Rhoi gwybod am bryder sy'n ymwneud â phlentyn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
**Gwasanaethau i Oedolion Rhondda Cynon Taf:** Rhoi gwybod am bryder sy'n ymwneud ag oedolyn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:**
**Gwasanaethau i Blant Pen-y-bont ar Ogwr** Amddiffyn plant
**Oedolion Pen-y-bont ar Ogwr:** Diogelu oedolion sydd mewn perygl

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
**Gwasanaethau i Blant Merthyr Tudful** Beth i'w wneud os ydych chi'n amau bod person mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu'n cael ei gam-drin/esgeuluso | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
**Gwasanaethau i Oedolion Merthyr Tudful** Oedolion mewn Perygl o gael ei Gam-drin neu'i Esgeuluso | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Os ydych chi eisiau rhoi gwybod am ddigwyddiad lle does dim angen ymateb ar frys, neu os oes ymholiad cyffredinol gyda chi, ffoniwch 101, sef rhif ffôn 24 awr yr heddlu ar gyfer achosion sydd ddim yn rhai brys. ***Ffoniwch 101 pan fydd y digwyddiad yn llai difrifol.***

## Cofiwch – mae diogelu yn fater i bawb!

**I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ewch i** Amdanom Ni | Diogelu, Cwm Taf Morgannwg

# ATODIAD 1 – AELODAU O'R BWRDD

| TEITL | ASIANTAETH |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cadeirydd)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Is-gadeirydd)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredu ar y Cyd)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Rheolwr y Gwasanaethau Diogelu Oedolion** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Pennaeth Partneriaethau (Plant)** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Gofal yn y Gymuned a Phlant** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **Cyfarwyddwr y Carchar** | Carchar Ei Fawrhydi Y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth Diogelu** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **Meddyg a enwyd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf |

| | |
|---|---|
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Arweinydd a enwyd ar gyfer Diogelu** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Nyrs Dynodedig (Carfan Diogelu Cenedlaethol)** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Pennaeth y Gwasanaeth Prawf** | Y Gwasanaeth Prawf |
| **Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Prif Reolwr Diogelu** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Pennaeth y Gwasanaethau i Blant** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **Pennaeth y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth Addysg a Gwasanaethau i Deuluoedd** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Rheolwr Grŵp** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Pennaeth y Gwasanaethau Diogelu Oedolion ac Eiddo Diogel** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Uwch-arolygydd** | Heddlu De Cymru |

| | |
|---|---|
| **Pennaeth Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed** | Heddlu De Cymru |
| **Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion** | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **Aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| **Swyddog Arweiniol Diogelu** | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |

# ATODIAD 2 – STRWYTHUR Y BWRDD

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

## Strwythur Is-grŵp BDCTM 2025-26

